**Statws** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 No. 202

# Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017

## RHAN 3

## Rhedeg Practis Deintyddol Preifat

### PENNOD 1

### Ansawdd y Gwasanaethau a Ddarperir

**Asesu a monitro ansawdd y gwasanaethau a ddarperir gan gynnwys ffurflenni blynyddol**

**16.**—(1) Rhaid i'r person cofrestredig—

(a) asesu a monitro'n rheolaidd ansawdd y gwasanaethau a ddarperir wrth gynnal y practis yn erbyn y gofynion a nodir yn y Rheoliadau hyn; a

(b) nodi, asesu a rheoli risgiau sy'n ymwneud ag iechyd, lles a diogelwch staff a chleifion.

(2) At ddibenion paragraff (1), rhaid i'r person cofrestredig—

(a) pan fo'n briodol, gael cyngor proffesiynol perthnasol;

(b) rhoi sylw i—

(i) yr wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn y cofnodion y cyfeirir atynt yn rheoliad 20 (cofnodion);

(ii) y sylwadau a'r cwynion a wneir, a'r safbwyntiau (gan gynnwys y disgrifiadau o'u profiadau o ofal a thriniaeth) a fynegir gan gleifion yn unol ag is-baragraff (c) a rheoliad 21 (cwynion);

(iii) unrhyw ymchwiliad a gynhelir gan y person cofrestredig mewn perthynas ag ymddygiad person a gyflogir at ddiben cynnal y practis deintyddol preifat; a

(iv) adroddiadau a lunnir gan yr awdurdod cofrestru o bryd i'w gilydd yn unol ag adran 32(5) o'r Ddeddf (arolygiadau: atodol) mewn perthynas â'r practis deintyddol preifat;

(c) mynd ati'n rheolaidd i geisio safbwyntiau (gan gynnwys y disgrifiadau o'u profiadau o ofal a thriniaeth) cleifion a phersonau sydd wedi eu cyflogi yn, neu at ddibenion, y practis deintyddol preifat; a

(d) pan fo angen, gwneud newidiadau i gyflenwi gwasanaethau, triniaeth neu ofal a ddarperir er mwyn adlewyrchu—

(i) y dadansoddiad o ddigwyddiadau a achosodd, neu a oedd â'r potensial i achosi, niwed i glaf;

(ii) casgliadau'r adolygiadau lleol a chenedlaethol o wasanaethau, archwiliadau clinigol a gwaith ymchwil a gynhelir gan gyrff arbenigol priodol; a

(iii) safbwyntiau cleifion a phersonau sydd wedi eu cyflogi yn, neu at ddibenion, y practis deintyddol preifat.

(3) Rhaid i'r person cofrestredig, pan ofynnir iddo wneud hynny, anfon i swyddfa briodol yr awdurdod cofrestru ffurflen flynyddol sy'n nodi sut y mae'r person cofrestredig wedi bodloni gofynion paragraff (1), ynghyd ag unrhyw gynlluniau sydd gan y person cofrestredig ar gyfer gwella safon y gwasanaethau, y driniaeth a'r gofal a ddarperir i gleifion gyda golwg ar sicrhau eu hiechyd, eu lles a'u diogelwch.

(4) Rhaid i'r person cofrestredig gymryd camau rhesymol i sicrhau nad yw'r ffurflen flynyddol yn gamarweiniol nac yn anghywir.

(5) Rhaid i'r person cofrestredig gyflenwi'r ffurflen flynyddol i swyddfa briodol yr awdurdod cofrestru o fewn yr amserlen a fynnir gan yr awdurdod.